**Neges oddi wrth Lywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2007-08**

Annwyl Ffrindiau,

Max Khanna

**Pan fyddwn yn meddwl am Dde Affrica byddwn yn syth yn cofio'r lluniau dramatig o Nelson Mandela yn cael ei ryddhau a'r tyrfaoedd yn heidio i'r canolfannau pleidleisio yn 1994.**

Er bod y sefyllfa wedi gwella tipyn ers hynny, mae yna glwyfau dyfnion o hyd: y niwed a achoswyd gan apartheid, diweithdra, HIV ac AIDS, tlodi dybryd:

- mae mwy nag 20 miliwn yn byw ar lai na £1 y dydd .
- mae miliwn o blant yn amddifad oherwydd AIDS

Ein braint ni yn ystod blwyddyn yr apêl fydd cefnogi partneriaid Cymorth Cristnogol, gan gofio bod ganddynt gysylltiadau cryf gyda'r eglwysi a'u bod yn gwneud cymaint i leddfu dioddefaint.

Mae'r apêl yn gyfle i ni ddysgu am y caledi, a hefyd y llwyddiant i oresgyn anawsterau, ymhlith pobl De Affrica, llawer ohonynt yn bartneriaid i ni yng Nghyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM).

Rwy'n eich annog i ddefnyddio'r adnoddau a baratowyd i roi cyhoeddusrwydd i'r apêl. Hyderaf yn fawr y byddwch yn llwyddo i gyrraedd y nod ariannol fel y gallwn ni roi help effeithiol lle mae'r angen mor fawr.

Yr Arglwydd a fo gyda chi yn y gwaith pwysig hwn.

Gras a thangnefedd

Dewi M Hughes




**Association for Rural Advancement (AFRA)** – yn gweithio yn Kwa Zulu Natal yn cefnogi pobl cefn gwlad sydd heb dir a ffermwyr sydd dan fygythiad o gael eu taflu oddi ar eu tir.

**KwaMashu Community Advancement Project (KCAP)** – yn gweithio gyda phobl ifanc difreintiedig ar gyrion Durban, gan roi iddyn nhw'r cyfle i ddysgu sgiliau megis drama, dawns, cerddoriaeth a ffotograffiaeth.

**Pietermaritzburg Association for Christian Social Awareness (PACSA)** – yn gweithio i ysbrydoli Cristnogion a'u hybu i weithio dros hawliau dynol a datblygiad cynaliadwy trwy ymchwil, addysg, myfyrdod ysbrydol a gweithredu.

**Thandanani Children's Foundation (TCF)** – yn cefnogi plant amddifad a phlant bregus eraill yn ardal Pietermaritzburg fel bod ganddynt fwyd, cysgod, addysg a chefnogaeth emosiynol.

**Wola Nani** – yn gweithio yn Cape Town a'r maestrefi cyfagos gan roi cefnogaeth arbennig i wragedd sy'n HIV positif a'u plant, trwy ddarparu cwnsela a gofal.

Rhifau elusennau cofrestredig y DG: Cymorth Cristnogol 1105851, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 248076.
Rhif cwmni Cymorth Cristnogol 5171525

Apêl Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2008/9

# Apêl De Affrica


Cymorth Cristnogol/Jodi Bieber/NB Pictures

cymorth cristnogol Credwn mewn byw cyn marw

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

**Er i apartheid ddod i ben yn 1994 ac er bod De Affrica yn awr yn gyrchfan poblogaidd i dwristiaid, eto i gyd, mae'r wlad yn dal i wynebu problemau anferth. Mae mwy na phum miliwn o bobl (allan o boblogaeth o 47 miliwn) yn HIV positif ac ugain miliwn o bobl yn byw ar lai na £1 y dydd.**

Mae ein hapêl, ar y cyd â Cymorth Cristnogol, yn cefnogi mudiadau partner lleol yn ne Affrica. Yr ydym wedi dewis canolbwyntio ar bump ohonynt ac yn gobeithio y cewch eich ysbrydoli gan y storïau am y bobl yn y daflen hon ac yn eich pecyn eglwys. Rhowch yn hael, os gwelwch yn dda – diolch!

**Yr ydym wedi gosod her i ni ein hunain o godi £1 yr aelod bob mis am flwyddyn yr apêl – a all eich eglwys chi gwrdd â'r her?**

## Sut fedra'i helpu?

**Rhoi** yn hael! Hefyd, fe allech drefnu digwyddiad codi arian syml gyda'ch ffrindiau. Mae digon o syniadau yn eich pecyn eglwys.

**Dysgu** am fywyd yn ne Affrica trwy astudio'r pecyn apêl. Meddyliwch sut y gallech rannu hyn gyda'ch eglwys a thu hwnt.

**Gweddïo** dros bobl De Affrica a thros y mudiadau sy'n eu helpu ac sy'n cael ein cefnogaeth trwy'r apêl yma.

## Pum peth i gofio...

**Y ddwy broblem fawr yw HIV a chyfiawnder economaidd.**

**Mae 20 miliwn yn Ne Affrica yn byw ar lai na £1 y dydd.**

**Mae bron hanner y boblogaeth o dan 20 oed, a thraean o dan 15.**

**Mae mwy o bobl HIV positif yn Ne Affrica nag yn unrhyw wlad arall yn y byd.**

**Bydd eich rhoddion chi yn gwneud gwahaniaeth!**

**Dyma bump o bobl a gafodd help gan ein partneriaid apêl. Gyda'ch cefnogaeth, gall ein partneriaid helpu llawer mwy o rai tebyg iddynt.**

Cymorth Cristnogol/ Jodi Bieber/NB Pictures

**Wiseman Shabalala** (ar y dde) a dynion ifanc eraill o'r grŵp Acting Against Crime sy'n cael ei redeg gan ein partner **KwaMashu Community Advancement Project (KCAP)** yn eu cymdogaeth leol. Mae gan faestref KwaMashu raddfa diweithdra o 80 y cant a graddfa tor-cyfraith uchel. Bydd y grŵp yn actio dramâu byrion o flaen cynulleidfa o bobl ifanc, dramâu sydd â neges yn erbyn trais ac sydd wedi eu seilio ar brofiadau aelodau'r grŵp o garchar.

Cymorth Cristnogol/ Jodi Bieber/NB Pictures

Gwnaeth ein mudiad partner **Association for Rural Advancement (AFRA)** ddechrau cefnogi **Emmanuel Mbele (63)** a'i gymdogion gyntaf nôl yn yr 1980au wrth iddynt ymladd yn erbyn cynlluniau i'w symud i "ardal ddu". Wedi diwedd apartheid, helpodd AFRA y gymuned i wneud cais llwyddiannus am hawl i'r tir. Yn awr mae ganddynt fynediad rhydd i gael dŵr, coed tân a gwellt i doi eu tai, ac fe gaiff eu gwartheg bori'n rhydd heb yr ofn y cânt eu caethiwo gan y tirfeddiannwr.

Cymorth Cristnogol/ Isobel Perry

Mae'r wraig hon - nad oedd am inni roi ei henw na dangos ei hwyneb - yn HIV positif. Mae **Wola Nani** wedi ei hyfforddi i wneud y bowlenni *papier mâché* yma o hen bapur. Mae'r bowlenni'n gwerthu'n dda yn ne Affrica a thramor gan sicrhau incwm i wragedd fel hi. Mae llawer o'n heglwysi yn defnyddio'r bowlenni yma fel ffocws i'w cyfrannu eleni. (Gellir eu harchebu o Tŷ John Penri) Mae Wola Nani hefyd yn ymladd yn erbyn yr ofn a'r stigma ofnadwy sy'n dal i berthyn i HIV.

Cymorth Cristnogol/ Jodi Bieber/NB Pictures

Nyrsiodd **Nomfundo Majola** ei thad, ei mam a'i chwaer fechan wrth iddynt farw o afiechydon sy'n deillio o HIV. Yn awr, hi sy'n gofalu ar ôl pedwar brawd a chwaer iau. Mae ein partner **Thandanani** yn darparu bwyd a dillad i'r teulu ond bydd hefyd yn canolbwyntio ar helpu Nomfundo i ymdopi'n emosiynol, gan sicrhau bod ganddi'r cyfle i alaru.

Cymorth Cristnogol/ Jodi Bieber/NB Pictures

Yn 1988 yr oedd **Ida Hadebe (yn ei 60au)** wedi mynd i wylnos yn nhŷ ei chymydog pan oresgynnwyd y tŷ gan heddlu arfog ac fe saethwyd bob un oedd yno. Lladdwyd deuddeg a chafodd Ida ei saethu pum gwaith gan dreulio chwe mis yn yr ysbyty. Yr oedd yn adeg o drais gwleidyddol creulon a drwgdybiaeth ddofn ymhlith aelodau'r gymuned leol. Yn awr mae ein partner y **Pietermaritzburg Agency for Christian Social Awareness (PACSA)** yn helpu i adeiladu capel coffa ar y man lle bu'r lladdfa.